



ELERI MILLS

TAITH GELF
AN ARTISTIC JOURNEY



ELERI MILLS

TAITH GELF : DATHLU'R 70
AN ARTISTIC JOURNEY: A CELEBRATION AT 70

06 - 28 September / Medi 2025

C E L F G A L L E R Y

2 Roath Park Hall, Bangor Street,
Cardiff, CF24 3NA
www.celfgallery.com info@celfgallery.com

Yn ei thirweddau, mae **Eleri Mills** yn ein tywys ar daith: mae llwybrau yn ein denu'n ddyfnach i'r olygfa, yr afonydd yn troelli o amgylch y bryniau a'r mynyddoedd, a chefnforoedd enfawr yn awgrymu bydoedd pell. I Mills, mae'r llwybrau a'r dyfrffyrdd hyn fel gwythiennau – neu sianeli bywyd – sy'n bywiogi ei thirweddau Cymreig nodedig. Ynddynt, mae ffurfiau natur wedi'u clymu'n dynn gydag ymdeimlad dwfn o hanes a diwylliant, tra bod elfennau a ysbrydolwyd gan y dirwedd wedi'u cyfuno gydag elfennau sy'n tarddu o'u dychmyg.

Mae'r arddangosfa hon, sy'n dathlu pen-blwydd Mills yn 70 oed, yn olrhain ei thaith artistig ei hun dros y 25 mlynedd ddiwethaf. Bu'n gyfnod o archwilio brwd ac o ddilyn diddordebau artistig newydd, yng Nghymru a thu hwnt. Ar y naill law, mae hi wedi dyfnhau ei pherthynas â'r amgylchedd sydd agosaf ati – tirwedd ffrwythlon, ddigylfwrdd canolbarth Cymru, lle cafodd ei geni a'i magu, ac ar y llaw arall, mae hi wedi darganfod ysbrydoliaeth artistig ymhellach i ffwrdd, yn Llundain, Efrog Newydd a Delhi. Yn ôl yn ei stiwdio yn Sir Drefaldwyn, mae hi wedi sianelu'r dylanwadau eang hyn i fewn i weithiau sy'n edrych i mewn ac allan.

Fel artist, mae Mills wastad yn cyfleu ymdeimlad dwfn o le, a ysbrydolwyd gan dirwedd Powys ond sydd wedi'i haddasu a'i hail-lunio i gonsurio tirwedd fwy chwedlonol. Dyma le sy'n dod o'r galon - yn llawn arwyddocâd personol a phwysigrwydd diwylliannol neu hanesyddol, a awgrymir yn ei theitlau. Daeth y syniad o greu'r quadriptych *Tirlun i Dywysogion (Landscape for Princes)* i Mills ar ôl iddi ymweld â Sycharth, cartref Owain Glyndŵr, Tywysog brodorol olaf Cymru. Mae'r ffurf gron ar y brig yn ein hatgoffa o'r castell mwnt a beili a safai ar y safle ar un adeg; mae ailadrodd y ffurf yn y pedwar darlun yn cyfleu cysondeb, tra bod y llwybrau, y dyfrffyrdd a'r coed, sy'n wahanol ymhob llun, yn cyfleu'r newidiadau a ddaw gyda threigl amser. Ochr yn ochr â chyfeiriadau hanesyddol, mae Mills hefyd yn ymddiddori yn nhraddodiad barddol Cymru. Mae *Y Dref Wen (Borderland)*, er enghraifft, yn cyfeirio at y dref deg neu annwyl a grybwyllir ym marddoniaeth gynnar Cymru (*Canu Heledd yn Llyfr Coch Hergest*). Credir fod y dref yn gyfeiriad at deyrnas gynnar Powys, a gafodd ei chynnwys yn rhannol yn Lloegr, ac a adlewyrchir yn y teitl Saesneg *Borderland*.

Yn y gweithiau hyn, caiff natur ei gyflwyno fel rhywbeth trefnus a delfrydol, gan awgrymu oes aur goll. Mae'r *idyll* hwn yn dwyn i gof 'lle dymunol' (*locus amoenus*) llenyddiaeth glasurol, lle mae bodau dynol yn byw mewn cytgord â byd natur – dyma syniad o fyd natur sy'n ganolog draddodiad tirweddau Ewrop, o Giorgione i Richard Wilson a thu hwnt. Mae Wilson, ynghyd â Samuel Palmer, J.D. Innes a David Hockney i gyd yn artistiaid y mae Mills yn eu hedmygu. Fel ei rhagflaenwyr, mae hi'n defnyddio lliwiau sy'n tawelu ac yn bywiogi, ac yn llunio cyfansoddiadau sy'n ein denu i mewn ac yn fframio'r olygfa fel coflaid.


Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Mills wedi cyfnewid ei lliwiau llachar am balet monoton. Drwy ddefnyddio inc a phastel, mae hi'n adeiladu ei delweddau gyda marciau llinol rhythmig, tebyg i'r manylion wedi eu pwytho sy'n nodweddu ei gyrfa gynharach. Mae ganddi broses greadigol ddeinamig, gan sefyll i weithio a symud o gwmpas y stiwdio'n gyson, i ddatblygu sawl darn o waith ar yr un pryd. Mae'r newid yn y palet hefyd wedi arwain at newid o ran tôn. Yn ei gweithiau diweddaraf *Llefydd Gwyllt y Galon (Wild Places of the Heart)*, caiff natur ei gyflwyno'n fwy mawreddog, gwyllt a dramatig, gyda bryniau crwn ei gweithiau cynharach wedi'u disodli gan gopaon uwch, mwy garw a phigfain. Mae eu maint yn llawer mwy na'r ffigurau dynol bach a bortreadir – ffigurau sy'n cyflwyno naratif i'r olygfa ond hefyd yn ein gwahodd i gyd-droedio'r llwybrau drwy'r dirwedd. Yn y darluniau hyn, mae Mills yn ymgysylltu â'r traddodiad Rhamantaidd, a siapiodd hanes peintio tirweddau yng Nghymru yn y 18fed ganrif. Mae *Y Bwlch (The Pass)*, er enghraifft, yn mynd â ni i gopaon y mynyddoedd, gyda'r wynebau creigiog dramatig yn disgyn mor serth â'r ffordd o'n blaenau.

Ond mae'r ymdeimlad o dawelwch a llonyddwch yn parhau mewn nifer o'r gweithiau. Mae *Yn yr Ardd o Gariad I (In the Garden I)*, a grëwyd yn ystod cyfnod Covid, yn cyflwyno gardd hudolus, lle mae grŵp teuluol yn ymgynnull yn llawen o dan gysgod amddiffynnol y coed. Yn y gwaith bychan *Pastoral (Pastoral)*, mae'r amgylchedd naturiol eto'n warchodol, gyda'r defaid yn pori yn talu teyrnged i hen draddodiadau ffermio sy'n raddol ddiflannu. Wedi ei magu mewn teulu o ffermwyr, mae Mills yn awyddus i fynd i'r afael â'r effaith y mae newidiadau diweddar yn eu cael ar y dirwedd. Mae *Yn y Dyffryn (In the Valley)* yn perthyn i grŵp o weithiau sy'n dathlu harddwch naturiol Dyffryn Banw, lle cafodd ei geni a lle y mae'n parhau i fyw – amgylchedd y mae hi'n ofni sydd dan fygythiad.

Dyma dirwedd y mae Mills wedi byw a bod ynddi erioed, ac wedi'i sianelu yn ei gwaith celf ers degawdau. Drwy ei pherthynas bersonol a chelfyddydol agos â'i hamgylchedd, mae ei gweithiau yn ein gwahodd i oedi ac i fyfyrio – ar y gorffennol, y presennol a'r dyfodol – ac i gynnig eiliad o lonyddwch mewn byd o newid.

Mari Griffith
Medi 2025





In her landscapes, **Eleri Mills** leads us on a journey: paths entice us deeper into the scene, rivers meander around hills and mountains, and vast oceans hint at distant worlds. For Mills, these pathways and waterways are like veins – or conduits of life – that animate her distinctly Welsh landscapes. In them, the forms of nature are tightly bound with a deep sense of history and culture, while aspects inspired by real topography are combined with elements from her imagination.

This exhibition, marking her 70th birthday, traces Mills’ own artistic journey over the past 25 years. This has been a time of intense exploration, which has seen her pursue new artistic interests both close to home and further afield. On the one hand, she has deepened her relationship with her immediate environment – the lush, unspoilt landscape of mid-Wales, where she was born and bred – and on the other, she has found artistic stimulus elsewhere, in London, New York and Delhi. Back in her studio in Montgomeryshire, she has channelled these wide-ranging influences into works that look both inwards and outwards.

As an artist, Mills always conveys a deep spirit of place, inspired by the topography of Powys but adapted and reshaped to evoke a more mythical landscape. This is a place of the heart, replete with both personal significance and cultural or historical import, which she hints at in her titles. The quadriptych *Tirlun i Dywysogion (Landscape for Princes)* was conceived following a visit to Sycharth, home of Owain Glyndŵr, the last native Prince of Wales. The rotund form at the top recalls the motte and bailey castle that once stood on the site; its repetition in all four works conveys constancy over the passage of time, represented by the shifting paths, waterways and trees. Alongside historical references, Mills also engages with Wales’s bardic tradition. *Y Dref Wen (Borderland)*, for example, refers to the fair or beloved town mentioned in early Welsh poetry (*Canu Heledd*, preserved in the Red Book of Hergest), believed to be a reference to the early kingdom of Powys, partly subsumed into England, which is reflected in the English title *Borderland*.

In these works, nature is presented as orderly and idealised, evoking a lost golden age. This idyll recalls the ‘pleasant place’ (*locus amoenus*) of classical literature, where humans live in harmony with nature – a view of nature central to the European landscape painting tradition, from Giorgione to Richard Wilson and beyond. The latter, along with Samuel Palmer, J.D. Innes and David Hockney are all artists admired by Mills. Like her predecessors, she uses colours that soothe and enliven, while her compositions draw us in and frame the view like an embrace.

In recent years, Mills has swapped her vibrant colours for a more monotone palette. Using ink and pastel, she builds her images with rhythmic linear marks, recalling the stitched details characteristic of her earlier career. She has a dynamic creative process, standing to work and constantly moving around the studio, building up several compositions simultaneously. The change in palette also ushers in change in tone. In her most recent works, *Llefydd Gwyllt y Gallon (Wild Places of the Heart)*, nature is presented as grander, wilder and more awesome, the rounded hills of earlier works replaced by higher, more jagged and pointed peaks. Their scale dwarfs the tiny human figures depicted, which introduce a narrative to the scene but also invite us to join them on their journey through the landscape. These works show Mills engaging with the Romantic tradition, which shaped the history of Welsh landscape painting in the 18th century. *Y Bwlch (The Pass)*, for example, places us high among the mountains, the dramatic rockfaces descending as steeply as the road ahead.

A sense of calm and serenity persists in many works, however. *Yn yr Ardd o Gariad I (In the Garden I)*, created during the time of Covid, presents a nurturing, magical garden, where a family group gathers joyfully under the protective shade of trees. The small-scale *Pastoral (Pastoral)* likewise shows nature as a nurturing environment, with the sheep grazing in a pasture paying homage to old farming traditions which are gradually disappearing. Having grown up in a farming family herself, Mills is eager to address the impact that fast-changing practices are having on the landscape. *Yn y Dyffryn (In the Valley)* belongs to a group of works that celebrates the natural beauty of the Banwy Valley, where she grew up and continues to live – an environment that she fears is under threat.

Mills has lived and breathed this landscape since birth and has channelled it into her art for decades. Through her closely bound personal and artistic relationship with it, her works invite us to pause and reflect – on the past, present and future – and offer a moment of stillness in a world of change.

Mari Griffith

August 2025





Llefydd Gwyllt y Galon III (Wild Places of the Heart III), 2024
ink and pastel on paper
69 x 102 cm

Llefydd Gwylt y Galon IV (Wild Places of the Heart IV), 2024
ink and pastel on paper
69 x 102 cm






Llefydd Gwyllt y Galon V (Wild Places of the Heart V), 2024
ink and pastel on paper
69 x 102 cm

Llefydd Gwylt y Galon VI (Wild Places of the Heart VI), 2024
ink and pastel on paper
69 x 102 cm





I



II



III



IV

Tirlun i Dywysogion (Landscape for Princes), 2007
 paint, charcoal and pastel on paper
 98 x 63 cm



Marchog (Rider), 2025
ink, charcoal and pastel on paper
38 x 57 cm



Llwybrau'r Mynydd (Mountain Tracks), 2019
ink, charcoal and pastel on paper
35 x 156 cm



Y Bwlch (The Pass), 2025
gesso, paint and ink on khadi paper
30 x 42 cm



Pastoral, 2025
gesso, paint and ink on khadi paper
30 x 42 cm




Yn yr Ardd o Gariad I (In the Garden I), 2020
ink, pastel and charcoal on paper
59 x 86 cm



Merlod y Ffin (Borderland Ponies), 2018
ink, charcoal and pastel on paper
63 x 89 cm

Y Dref Wen (Borderland), 2021
paint, ink, pastel and charcoal on paper
57 x 76 cm





Castell (Castle), 2011
ink on paper
28 x 76 cm



Tirlun Barddol-amddiffynfa II (Bardic Landscape-fortification II), 2015
ink on paper
22 x 61 cm




Y Bardd a'r Llong (Reclining Poet and Distant Ship), 2019
paint, ink, charcoal and pastel on paper
59 x 95 cm



Yn y Dyffryn - Y Llwybr (In the Valley - The Path), 2018
ink and pastel on paper
69 x 102 cm

Llefydd Gwyllt II (Wild Places II), 2017
gesso, paint, ink, varnish and thread on calico
60 x 137 cm





Mordaith I (Voyage I), 2012
 paint, ink, pastel and charcoal on paper
 28 x 79 cm




Mordaith IV (Voyage IV), 2012
 paint, pastel and charcoal on paper
 28 x 79 cm



O'r Tir - Nocturnal, 2000
paint, hand stitching and applique on fabric
45 x 134 cm



Eleri Mills in her studio, 2025



SELF GALLERY